Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Dechrau'n Deg Melin Ifan Ddu**

**Iard Chwarae Glynllan**
**Dimbath Avenue**
**Melin Ifan Ddu**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF35 6ED**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Dechrau'n Deg Melin Ifan Ddu

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Mawrth 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus ac yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau'n annibynnol. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf ac yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored, sy'n ennyn chwilfrydedd a diddordeb. Mae'r plant yn hyderus wrth gyfathrebu â'i gilydd ac â'r staff gofal.

Mae'r staff gofal yn gweithredu polisïau'n gyson ac yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Mae'r staff yn canmol y plant mewn ffordd gadarnhaol am ddal ati ac am ymddygiad da. Maent yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae a dysgu â chydbwysedd priodol rhwng cyfleoedd dan arweiniad y plentyn a chyfleoedd dan arweiniad oedolion. Mae'r staff gofal yn cynllunio ac yn asesu mewn ffordd bwrpasol er mwyn gwneud yn siŵr y caiff diddordebau a chwilfrydedd y plant eu datblygu ymhellach.

Mae'r amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do dda iawn er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y defnyddir yr ardaloedd chwarae awyr agored mor aml â phosibl. Maent yn darparu adnoddau ysgogol ac arloesol i bob oedran a cham datblygu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â bron pob un o'r rheoliadau perthnasol ac maent yn rhagori ar y rhan fwyaf o'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ganddynt weledigaeth gref ar gyfer y dyfodol ac maent yn sicrhau eu bod yn rheoli eu tîm gan gynnig cymorth effeithiol a hyfforddiant parhaus. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llawn brwdfrydedd ac maent yn sicrhau eu bod yn cynnig gofal o safon uchel iawn i'r plant. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol ardderchog â'r rhieni a'r gofalwyr ac maent yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau bod pob plentyn sy'n cael gofal ganddynt yn cael gofal a chymorth effeithiol.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae’r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus ac yn ymgysylltu â'u ffrindiau ac â'r staff ac roedd rhai yn teimlo'n gyfforddus i sgwrsio â ni. Er enghraifft, aeth un plentyn â ni at y ffenestr i ddangos ei rieni'n cerdded i lawr y llwybr. Caiff lleisiau'r plant eu clywed, a gallant ddewis beth yr hoffent chwarae ag ef ac ym mhle. Er enghraifft, roedd un plentyn yn eistedd wrth fwrdd, wedi ymgolli'n llwyr mewn gweithgareddau crefftau am bron i 50 munud. Aeth rhai o'r plant allan i chwarae a dewisodd eraill aros dan do.

Mae'r plant yn ymdopi'n dda iawn â chael eu gwahanu gan fod trefniadau trosglwyddo dyddiol effeithlon yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion unigol yn llawn ac yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Maent yn meithrin cysylltiadau emosiynol cadarnhaol â'r staff a gyda'i gilydd. Gwelsom eu bod yn barod i droi at y staff i gael cymorth. Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad hwn, a gwelsom eu bod yn gwenu, yn chwerthin ac yn mwynhau eu hamser yno. Cafodd y plant a gyrhaeddodd ychydig yn hwyrach eu cyfarch gan y rhai a oedd yno yn barod, drwy godi llaw a galw ‘*Hi*’ i'w cyfarch. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd iawn ag arferion y lleoliad. Mae gan bob plentyn ei weithiwr allweddol ei hun, y bydd yn ei ddewis ei hun pan fyddant wedi setlo ac wedi dod i adnabod y staff gofal.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n hapus ac yn siarad yn llawn cyffro a hyder â'r staff yn ystod eu gweithgareddau a chânt eu hysbrydoli a'u cymell i ddatblygu eu creadigaethau o ganlyniad i hynny. Mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i ganmoliaeth. Er enghraifft, ar ddiwedd amser cofrestru, mae'r staff gofal yn diolch i'r plant am roi eu matiau i gadw. Mae'r plant yn gwenu'n falch.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored. Mae ganddynt y rhyddid i archwilio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel. Mae ganddynt hunangymhelliant i fwrw ati i ddechrau chwarae eu hunain ac i ddylanwadu ar eu tasgau, gan fod cydbwysedd da rhwng gweithgareddau dan arweiniad y plentyn a gweithgareddau dan arweiniad oedolion. Er enghraifft, penderfynodd y plant wneud prydau i ni yn y gegin chwarae ac roeddent yn mwynhau pasio eitemau amrywiol o fwyd ar blât.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da iawn i ddatblygu annibyniaeth. Maent yn agor ac yn torri eu ffrwythau eu hunain ac yn arllwys eu dŵr neu laeth eu hunain ar adeg byrbrydau ac yn dewis pwy yr hoffent eistedd wrth eu hymyl. Mae'r plant yn mynd at yr adnoddau a'r gweithgareddau yn hyderus, a chânt gyfleoedd i gynllunio, datblygu a gwerthuso cysyniadau sydd o ddiddordeb iddynt.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn gweithredu polisïau'n gyson ac yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Mae'r staff yn nodi risgiau ac yn rheoli hyn mewn modd rhagweithiol ac effeithiol. Mae gan y staff ddealltwriaeth drylwyr o'u rôl o ran amddiffyn plant a gwnaethant ateb cwestiynau diogelu yn hyderus. Mae'r staff gofal wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd. Maent yn llenwi cofnodlyfrau damweiniau a chaiff y rhain eu cydlofnodi gan y rhieni / gofalwyr.

Mae'r staff gofal yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn canmol y plant mewn ffordd gadarnhaol am ddal ati ac am ymddygiad da. Mae'r staff gofal yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau rheoli ymddygiad gan gynnwys tynnu sylw a negodi. Er enghraifft, roedd un plentyn yn drist pan gymerodd plentyn arall ei gar. Gwrandawodd yr aelod o'r staff yn amyneddgar ac awgrymodd y dylai ddod o hyd i gar arall tebyg yn lle hynny. O ganlyniad, llwyddodd y ddau blentyn i barhau i chwarae'n hapus.

Mae'r staff gofal yn ymateb yn gyson. Maent yn gwneud pob ymdrech i wrando'n astud ac i gyfathrebu â'r plant. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd, caredigrwydd ac amynedd. Mae'r staff gofal yn cymryd amser i sicrhau eu bod yn rhyngweithio mewn modd ystyrlon sydd o fudd i'r plant sy'n cael gofal ganddynt.

Mae'r staff gofal yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae a dysgu â chydbwysedd priodol rhwng cyfleoedd dan arweiniad y plentyn a chyfleoedd dan arweiniad oedolion. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant gan chwilio am gyfleoedd i ehangu eu dysgu a'u sgiliau trafod. Caiff y staff gofal gyfarfodydd pwrpasol cyn i'r plant gyrraedd yn y boreau, er mwyn cynllunio a thrafod gweithgareddau ystyrlon ac wedyn gynnwys y plant yn y broses gynllunio.

Mae'r staff gofal yn cydnabod pan fydd gan y plant anghenion ychwanegol o bosibl. Maent yn cymryd camau pwrpasol ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r cymorth ardderchog sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn cynnwys ymwelydd iechyd ar y safle a gweithiwr peripatetig i helpu plant unigol a'u teuluoedd. Mae hyn yn un o gryfderau mawr y lleoliad. Mae'r staff yn darparu gofal ystyriol ac amyneddgar wedi'i deilwra. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael eu cefnogi drwy greu gofod y gallant chwarae ynddo. Maent yn adnabod y plant yn eithriadol o dda ac yn falch sôn wrthym am eu cyflawniadau.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau cynhwysfawr ar waith ac maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel ac mewn cyflwr da. Mae'r staff yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol effeithiol a chywir, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal. Mae trefniadau glanhau cyson yn arwain at amgylchedd dan do sy'n lân ac yn ddymunol. Mae arferion rheoli heintiau effeithiol yn llwyddo i leihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do dda iawn er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y defnyddir yr ardaloedd chwarae awyr agored mor aml â phosibl a'u bod yn estyniad i'r amgylchedd dysgu. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gynlluniau i ddatblygu'r ardal awyr agored yn y flwyddyn i ddod er mwyn cynnig amrywiaeth o ardaloedd sy'n hyrwyddo cyfleoedd chwarae a dysgu i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da sy'n briodol o ran camau datblygiad y plant er mwyn sicrhau bod amrywiaeth a dewis da ar gael iddynt. Maent yn darparu adnoddau ysgogol i bob oedran a cham datblygu, sy'n cyfrannu at ddatblygiad cyffredinol y plant. Er enghraifft, drwy chwarae adeiladu, gweithgareddau synhwyraidd, gweithgareddau byd bach a gweithgareddau creadigol. Gall y plant gael gafael ar y teganau a'r adnoddau yn hawdd, gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i ddarparu adnoddau ysgogol i ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Mae'r staff gofal yn sicrhau y gall pob plentyn fynd at y gweithgareddau a'r adnoddau ym mhob rhan o'r lleoliad. Gwelsom fod y staff yn caniatáu i'r plant gymryd risgiau gan eu bod yn gwerthfawrogi bod hyn o fudd er mwyn i'r plant ddatblygu. Er enghraifft, gwelsom blant dan oruchwyliaeth yn camu'n ofalus ar flociau plastig mawr yn yr awyr agored ac yn ymdopi â grisiau yn annibynnol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gref a gaiff ei rhannu ag eraill. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol ac effeithiol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac maent yn awyddus i hybu gwelliant. Maent yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofynnol yn drefnus a'u bod yn cael eu cadw'n gywir. Ar y cyfan, mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad bob amser yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gosod disgwyliadau uchel ac yn arwain drwy esiampl. Maent yn rhoi arferion gorau cyfredol ar waith sy'n berthnasol i'r plant sy'n cael gofal ganddynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dangos brwdfrydedd a chymhelliant i gynnig safonau uchel i'r plant sy'n mynychu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgymryd â phrosesau hunanwerthuso gweithgar. Maent yn llunio adroddiad trylwyr a myfyriol ar ansawdd y gofal, gan ofyn am safbwyntiau'r plant, y rhieni a'r staff a'u rhoi ar waith.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn i ddiogelu'r plant ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd fel sy'n ofynnol. Mae gweithdrefnau recriwtio cadarn ar waith a chaiff gwiriadau addasrwydd eu cwblhau fel sy'n ofynnol. Mae'r broses rheoli perfformiad yn dda a chynhelir sesiynau goruchwylio, arfarniadau a chyfarfodydd tîm yn rheolaidd. Ceir diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac mae'r arweinwyr yn dangos esiampl o hyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin cydberthnasau ystyrlon a chadarnhaol â'r rhieni a'r gofalwyr. Mae systemau ardderchog ar waith i roi gwybodaeth i'r rhieni am yr amser y mae eu plentyn yn ei dreulio yn y lleoliad. Dywedodd y rhieni wrthym pa mor gefnogol a pharod eu cymwynas oedd y staff, a chymaint yr oedd eu plant yn mwynhau mynychu. Maent yn eithriadol o hapus â'r ffordd y caiff annibyniaeth eu plant ei meithrin a'i hannog ac yn teimlo bod eu plant yn ffynnu.
Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gydberthnasau cadarnhaol ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Sicrhau bod hysbysiadau o ddigwyddiadau arwyddocaol yn cael eu gwneud mewn modd amserol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol yn cydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth gan ei fod wedi methu â hysbysu AGC pan oedd y lleoliad ar gau. | Newydd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/03/2023